Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cylch Gorchwyl — Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

## 1. Cyfansoddiad

1.1. Un o Bwyllgorau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr o hyn ymlaen) y cyfeirir ato fel y **Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi** (y Pwyllgor) a sefydlir â'r Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog canlynol drwy benderfyniad gan Fwrdd Medr dyddiedig 22 Mai 2025.

1.2. Caiff y trefniadau eu hadolygu bob dwy flynedd, neu'n gynharach fel y bo'n briodol, er mwyn ystyried a yw strwythur y Pwyllgor yn ei helpu i weithredu'n effeithiol a rhoi cyngor i Medr mewn perthynas â'i gyfrifoldebau am y sector addysg drydyddol ac ymchwil.

## 2. Cylch Gorchwyl

2.1. Gan nodi mai un o swyddogaethau Medr yw cyllido gwaith ymchwil ac arloesi mewn sefydliadau addysg drydyddol yng Nghymru a chyrff sy'n cydweithio â nhw, bydd dyletswyddau penodol y Pwyllgor fel a ganlyn:

(i) Cynghori Medr ar faterion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi, fel y nodir yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022, gan gynnwys mewn perthynas â gwneud gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

(ii) Goruchwylio gwaith datblygu polisïau sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arloesi, yn unol â nodau ac amcanion bwriadedig Medr, gan gynnwys yr egwyddorion cyllid a'r ffordd y caiff cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn ei ddyrannu.

(iii) Cynghori Medr ar y trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso ei bolisïau a'i ffrydiau cyllido.

(iv) Cynghori Medr ar faterion sy'n ymwneud â gwella ansawdd gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn barhaus, gan gynnwys gweithrediad, effaith a dylanwad y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

(v) Cynghori Medr ar gynaliadwyedd ariannol y sylfaen ymchwil yng Nghymru.

(vi) Cynghori Medr ar sut i hyrwyddo a chynnal diwylliannau ac amgylcheddau ymchwil iach a llewyrchus er mwyn cefnogi gwaith ymchwil o'r radd flaenaf mewn sefydliadau yng Nghymru, gan gydnabod bod y Cytundeb Fframwaith â Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Medr weithredu fel eiriolwr dros waith ymchwil yng Nghymru ar lefel y DU ac ar lefel fyd-eang.

(vii) Ystyried sut y gallai trefniadau sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil ac arloesi ar gyfer pob rhan o'r system addysg drydyddol ac ymchwil hyrwyddo cydweithio a chydlyniant, gan gynnwys drwy weithio mewn partneriaeth â phartneriaid cyllido allweddol yng Nghymru a thu hwnt.

(viii) Casglu tystiolaeth o ofynion diwydiant, masnach, cyllid, y proffesiynau, y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a chyflogwyr a gweithwyr eraill er

mwyn helpu Medr i gyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol drwy waith ymchwil ac arloesi.

(ix) Cynghori Medr mewn perthynas â'i ddyletswydd i annog darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru i fynd ar drywydd cenhadaeth ddinesig.

(x) Ystyried unrhyw faterion y bydd Bwrdd Medr yn eu cyfeirio at y Pwyllgor.

## 3. Rheolau Sefydlog

3.1. Bydd Rheolau Sefydlog safonol y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) yn berthnasol, gan gynnwys sicrhau y rhoddir cyngor yn unol ag egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.2. Gall y Pwyllgor ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau i un neu ragor o is-bwyllgorau.

## 4. Aelodaeth a Phresenoldeb

4.1. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at 12 o aelodau, gan gynnwys dau aelod o Fwrdd Medr. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd Bwrdd Medr.

4.2. Y cworwm ar gyfer aelodau'r Pwyllgor fydd chwe aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

4.3. Bydd y Cadeirydd yn adolygu effeithiolrwydd yr Aelodau yn flynyddol.

## 5. Amlder y Cyfarfodydd

5.1. Cynhelir o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn.

## 6. Awdurdod

6.1. Corff cynghori heb bwerau gweithredol yw'r Pwyllgor.

6.2. Awdurdodir y Pwyllgor i gael cyngor proffesiynol annibynnol os bydd yn credu bod hyn yn angenrheidiol, yn unol â Rheolau Sefydlog Pwyllgorau Medr.

## 7. Adroddiadau

7.1. Caiff cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor eu cylchredeg i gyfarfod nesaf Bwrdd Medr, ar ôl i Gadeirydd y Pwyllgor eu cymeradwyo.

7.2. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Medr ar y ffordd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

## 8. Adolygu

8.1. Caiff Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff unrhyw newidiadau arfaethedig eu cyflwyno i Fwrdd Medr i gael eu cymeradwyo.

**Cyfansoddiad y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi**

**Aelodau**
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at 12 o aelodau.

**Bwrdd**
- Dirprwy Gadeirydd Medr (Cadeirydd)
- Dau aelod arall o Fwrdd Medr

**Penodiadau'r Pwyllgor Enwebiadau i feddu ar brofiad o wneud gwaith ymchwil ac arloesi neu'r gallu i wneud gwaith ymchwil ac arloesi.**
- Hyd at dri aelod o amrywiaeth o sefydliadau addysg uwch, a fydd fel arfer yn cynnwys Cadeirydd Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Prifysgolion Cymru (neu ddirprwy enwebedig) ac aelod arall sy'n cynrychioli cysylltiadau rhwng prifysgolion a busnesau;
- un aelod o ddarparwr addysg drydyddol arall;
- un aelod â phrofiad o ddiwydiant neu fyd busnes;
- un aelod o gorff arall sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

**Person(au) i gynrychioli buddiannau ymchwilwyr yng Nghymru**
- Ymchwilydd Gyrfa Gynnar
- Prif Ymchwilydd Gweithredol
- Aelod o staff sy'n hwyluso gwaith ymchwil

**Arsylwyr**
- Prifysgolion Cymru
- Rhwydwaith Arloesedd Cymru
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Colegau Cymru
- Llywodraeth Cymru (y Swyddfa Wyddoniaeth)
- Llywodraeth Cymru (Arloesi)
- Llywodraeth Cymru (Tîm Partneriaeth Medr)
- Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI)
- Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT)
- Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB)
- Cynrychiolwyr o Rwydweithiau WILO a WHEELO
- Unrhyw rai a gaiff eu gwahodd gan y Cadeirydd, gan gynnwys aelodau eraill o Fwrdd Medr

Wrth ddewis aelodau o'r Pwyllgor, bydd Medr yn ystyried amrywiaeth o ran nodweddion gwarchodedig, daearyddiaeth, math o sefydliad ac arbenigedd pwnc academaidd.

**Ysgrifenyddiaeth**
Caiff y Pwyllgor ei wasanaethu gan aelodau o'r Tîm Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu.

**Rheoli dogfennau**

| Fersiwn | Dyddiad | Manylion |
|---|---|---|
| 1.0 | 24 Mawrth 2025 | Aelodaeth ffurfiol a gymeradwyir gan y Pwyllgor yn dilyn cyfnod pontio cychwynnol |
| 2.0 | | |
| 3.0 | | |